# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

## RHAN 1

CYDLAFURIO GAN GYRFF ADDYSG

### 8 Dehongli'r Rhan hon

Yn y Rhan hon—

mae i "amcan y cydlafurio" ("*collaboration objective*") yr ystyr a roddir gan adran 2;

mae i "corff addysg" ("*education body*") yr ystyr a roddir gan adran 1;

mae i "pwerau cydlafurio" ("*powers of collaboration*") yr ystyr a roddir gan adran 4;

ystyr "swyddogaethau" ("*functions*") yw pwerau a dyletswyddau, ac yn achos awdurdod lleol, pwerau a dyletswyddau sy'n swyddogaethau addysg;

ystyr "trefniadau cydlafurio" ("*collaboration arrangements*") yw gweithgaredd a gyflawnir wrth arfer pwerau cydlafurio corff addysg;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 33(2)**

**I2** A. 8 mewn grym ar 16.11.2012 gan O.S. 2012/2656, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 8.